Cenn@d

MAWRTH 22 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 108

Dyddiadur Gogledd–ddwyrain India – plethu'r hanes a'r heddiw yn un

Cyfarfod Synod y Dwyrain (Sepgni) yn Lyngkhoi

Ymhlith y merched lliwgar yn y Synod

Amcangyfrifir bod hyd at 100,000 wedi dod i'r Synod y dydd hwnnw

Clausur Cymreig ymhlith y llyfrau yn hen Goleg Sora (Cherapunji)

Myfyrwyr y Ganolfan Hyfforddiant Cenhadol y tu allan i'r hen Goleg yn Sora

Myfyrwyr diwinyddol yn canu'r hen offerynnau yn Ngholeg newydd John Roberts ger Shillong

Ers y tro diwethaf i mi anfon gair i *Cenn@d* am ein hymweliad â rhai o Synodau Eglwys Bresbyteraidd India, yr ydym wedi bod yn ymweld ag eglwysi, ysgolion a cholegau, â chanolfan iechyd gwledig, ysbytai a chartrefi i blant amddifad, Cawsom hefyd gyfle i weld Canolfan Hyfforddiant Cenhadol, swyddfeydd Synodau ac aelwydydd.

Mae'r croeso yn un twymgalon bob tro am ein bod yn dod o Gymru a bod Nan, fel Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, yn cael ymweld am y tro cyntaf. Ceir 12 Synod yn rhan o Eglwys Bresbyteraidd India, ac mae dwy Synod arall yn y broses o gael eu ffurfio. Fe fyddwn ninnau wedi cael trafodaethau gyda phump ohonynt cyn troi am adref ac wedi gweld ychydig o'r amrywiaeth eang o weinidogaethau addysgol, meddygol a chenhadol sydd ganddynt.

Fe ddechreuodd y cyfan yma ym mryniau hardd Khasi-Jaintia mewn lle o'r enw Sora, neu Cherapunji fel y byddwn ni'n ei adnabod ac yn cofio amdano ymhlith y llefydd gwlypaf ar y ddaear. Daeth Thomas Jones yma ym 1841 a sefydlu gorsaf genhadol yma. Ymhlith y cenhadon cyntaf yma ym 1846 yr oedd Daniel Jones ac Ann, ei wraig, a fu'n byw yn ardal yr Wyddgrug am gyfnod gan fod ei dad, Edward Jones, Maes-y-plwm, yn ysgolfeistr yn Cilcain a Llyn y Pandy.

Bu farw Daniel o fewn ychydig fisoedd i gyrraedd yma, a chollwyd eu baban, merch fach a anwyd iddynt, hefyd yr un pryd a'u claddu yn yr un arch. Roedd hanes y genhadaeth yma'n gallu bod yn un o golledion a chaledi mawr. Ond braint fawr na feddyliais i erioed y byddwn yn ei chael oedd gweld bedd Daniel Jones yn y fynwent ger yr eglwys gyntaf yn Nongsualia, ger Sora. Yno yr oedd ynghyd â bedd John Roberts, Corris, a roddodd oes o wasanaeth – ef a'i wraig, Sydney – ar y bryniau hyn.

Gan fod y lle yn atyniad twristaidd mawr, gyda'i raeadrau a'i ogofâu a'i olygfeydd i lawr i gyfeiriad y gwastadeddau yn Bangladesh, mae yna lawer hefyd yn ymweld â'r hen eglwys yno a'r fynwent. Mae canolfan ddehongli i ymwelwyr ar fin cael ei chwblhau yno a fydd yn cyflwyno'r hanes yma o aberth a gafodd gymaint o ddylanwad yn y bryniau hyn. Mae 22 Mehefin yn cael ei ddathlu fel dydd Thomas Jones, pan gofir amdano fel tad gwyddor iaith y Casi yn ogystal â chenhadon Cymreig eraill a roddodd y fath fri ar yr iaith frodorol.

(parhad ar y dudalen nesaf)

O'r Llwyfan
Tudalen 3

Y 'Pethau Bychain' a'r Cwmwl Mawr: neges Dewi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain
Tudalen 4

O Gefn Gwlad
Tudalen 7

Dyddiadur Gogledd–ddwyrain India – plethu'r hanes a'r heddiw yn un
(parhad o dudalen 1)

Ochr yn ochr â'r hanes, y mae yna eglwysi a gwaith bywiog sy'n rhan o genhadaeth a gweinidogaeth gyfoes yr eglwys. Roedd y gorffennol a'r dyfodol i'w gweld ochr yn ochr yn y Ganolfan Hyfforddiant Cenhadol oedd wedi ei lleoli yn adeilad yr hen Goleg Diwinyddol a sefydlwyd yma gan John Roberts yn y 1870au. Roedd yno 49 o fyfyrwyr ifanc yn cael eu paratoi i fod yn genhadon ar gyfer y meysydd gwahanol, ond yr amodau'n druenus a'r glaw trwm blynyddol a'i effaith i'w weld. Wrth i'r Coleg Diwinyddol gael ei symud i un newydd yn nes at Shillong yn 90au'r ganrif ddiwethaf, gadawyd rhai miloedd o hen lyfrau i bydru i fyny yma yn Sora. Ac fe welwn rai cyfarwydd yn eu plith, fel cofiant Thomas Charles o'r Bala mewn tair cyfrol.

Yng Ngholeg Diwinyddol newydd John Roberts, ger Shillong, fe ddaeth y 260 o fyfyrwyr diwinyddol yno i'n cyfarch o boptu'r ffordd a'n hanrhegu yn y capel wrth i ninnau gael eu cyfarch a gweddïo drostynt.

Roedd cri yno am gael gafael ar eu hanes fel eglwys wrth iddyn nhw ddatblygu i fod yn un o ganolfannau rhagorol y Gogledd-ddwyrain mewn dehongli cenhadaeth. Mae llawer o waith wedi ei wneud gan rai a ddaeth i Gymru i bori yn archifau'r genhadaeth yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth. Ond mae llawer eto i'w wneud er mwyn cael yr archifau hyn sy'n perthyn i'r eglwys Bresbyteraidd yng Ngogledd-ddwyrain India yn ôl i'w dwylo eu hunain.

Mawrth yw mis y synodau mawr ym Mryniau Casia-Jaintia, cyn i'r glawogydd gyrraedd. Mae pob synod unigol yn cynnal cynulliadau ieuenctid, cyfarfodydd ar gyfer cynrychiolwyr a gwasanaethau ar gyfer holl eglwysi'r synod honno. Ym Mudemai yn Synod Minghi (Synod y Dwyrain, sy'n cynnwys Jowai) y gwnaethon ni dreulio ein Sul cyntaf, yng nghwmni torf a rifai 20,000, efallai. Yng ngwasanaeth y prynhawn, yn ogystal â chanu a gwrando ar chwe chôr, fe gaed pregeth ysgytwol a heriol am adfer yr hyn a gollwyd, wedi ei seilio ar hanes Dafydd yn Siclag yn 1 Samuel 31.

Y Sul canlynol fe aethom yn gynnar am 6 o'r gloch y bore i ardal Lyngkhoi yn Synod Sepni (Synod y Gorllewin), er mwyn osgoi'r traffig difrifol a fyddai'n tagu'r ffyrdd culion yno yn hwyrach ymlaen. Roedd llywodraeth Meghalaya hyd yn oed wedi adeiladu ffordd a phont newydd sbon i Lyngkhoi, ac wedi gosod pibellau dŵr newydd er mwyn dygymod â'r torfeydd a ddeuai yno, a'r paratoadau gan y pentrefwyr yn eithriadol. Roedd rhyw 120 o gartrefi yn y pentref bach gwledig yma o amaethwyr yn lletya'r 1,600 o gynrychiolwyr ac yn cynnig bwyd i bwy bynnag a ddeuai yno i'r gwasanaethau. (Lladdwyd pum mochyn yn y cartref y cawson ni ginio ynddo, a lletya 120 o gynorthwywyr a chynrychiolwyr; roedd casglu arian er mwyn gallu rhoi yn hael wedi bod yn digwydd yno ers deng mlynedd.)

Fe ddaeth o leiaf 60,000 ynghyd y Sul hwnnw, gan osod eu hunain yng nghanol y caeau padi sych mewn rhesi a theuluoedd i wrando pregeth ar arglwyddiaeth Iesu Grist dros bob peth. Yr unig gymhariaeth y

Bedd Daniel Jones

gallwn i ei gwneud oedd â'r llun hwnnw o Grîn y Bala yn y 1820au adeg Sasiwn, gyda rhyw 30,000 yn gwrando ar John Elias a phregethwyr mawr eraill o lwyfan arbennig yn y blaen.

Er inni gael ein croesawu a'n hanrhegu o flaen y dorf fel rhai'n cynrychioli Eglwys Bresbyteraidd Cymru, nid oedd rhyddid inni ddiolch na dwyn cyfarchion yn yr awyr agored gan fod y cyfan, fel yn y Synodau i gyd, yn sicr dan oruchwyliaeth rhai a fyddai'n adrodd yn ôl i lywodraeth India ac yn ymchwilio i'n fisas ni.

Taleithiau â mwyafrif o Gristnogion sydd yn Meghalaya, Mizoram, Nagaland a Manipur, ac er bod aelodau eu Cynulliadau taleithiol a Phrif Weinidogion y Cynulliadau hynny'n Gristnogion, mae cysgod plaid Hindŵaidd y BJP, plaid yr Arlywydd Modi, yn drwm ar y taleithiau hyn i gyd.

HP-D
(Y rhan olaf i ddilyn y tro nesaf)

Ceisiadau a chyfarfodydd Medalau Gee 2023

Cyflwynir medalau Gee yn flynyddol i ffyddloniaid yr ysgol Sul, er cof am Thomas a Susannah Gee. Cyhoeddwr, perchennog newyddiaduron a golygydd o Ddinbych oedd Thomas Gee. Datblygodd Gwasg Gee i fod yn un o'r gweisg pwysicaf yn hanes Cymru, a bu'r wasg yn ddylanwadol iawn am bron i ddwy ganrif, ers ei sefydlu yn nhref Rhuthun.

Mae croeso i ysgolion Sul enwebu medalwyr unrhyw adeg o'r flwyddyn, ond rhaid i unrhyw gais ar gyfer 2023 fod mewn llaw erbyn 30 Mehefin. Cyflwynir y medalau yn ystod mis Medi.

Rydym ar hyn o bryd yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i

bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r ysgol Sul (mae ein diffiniad o ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o wefan www.ysgolsul.com

Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi ein cyrraedd ni erbyn 30 Mehefin, fan hwyraf. Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus o ddiolch i athrawon ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuenctid am oes o wasanaeth, ac i gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes yna rywrai yn eich ysgolion Sul chi sy'n disgyn i'r categori hyn? Os oes, yna ewch ati i enwebu!

Gyda llawer o ddiolch,
ar ran Cyngor yr Ysgolion Sul,
Aled Davies

O'r Llwyfan

Newid Diwylliant

Ddiwedd mis Mawrth cynhelir cyfarfod o Gyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru, sef prif gorff cynrychiadol yr Undeb. Ymhlith y materion a gaiff eu hystyried y mae adroddiad gan y Grŵp Strategaeth mewn perthynas â strwythur presennol y byrddau a'r pwyllgorau, a'u haddasrwydd i waith yr Undeb yn yr unfed ganrif ar hugain. Sefydlwyd y Grŵp Strategaeth i ystyried tri maes penodol, sef cydbwysedd rhywedd, y genhedlaeth iau a'n hunaniaeth Fedyddiedig.

O safbwynt cydbwysedd rhywedd roedd adroddiad eisoes wedi'i gyflwyno gan Mrs Ruth Davies, Caerdydd, a Miss Aldyth Williams, Treforys, ar y sefyllfa o fewn strwythurau'r Undeb a ddangosai fod yr ymrwymiad benywaidd i'r eglwys leol yn hollol wahanol i gyfraniad menywod i'r byrddau a'r pwyllgorau. Mae'n amlwg felly fod yr Undeb o ganlyniad wedi colli allan ar gyfraniadau gan aelodau gweithgar ac ymroddedig o fewn ein heglwysi.

Ond a oes angen poeni am hyn?

Mewn gair, oes!

Menywod yw'r grŵp gorthrymedig mwyaf yn y byd ac mae'r graddau y cânt eu gorthrymu'n amrywio o wlad i wlad. Yn gyffredinol, mae menywod yng ngwledydd y Gorllewin yn dod yn eu blaenau yn well nag mewn gwledydd eraill. Ond does ond rhaid i ni feddwl am y sefyllfa echrydus yn Afghanistan lle mae merched yn cael eu rhwystro gan y Taliban rhag astudio mewn ysgolion a phrifysgolion a dilyn gyrfaoedd y tu allan i'r cartref i sylweddoli nad yw hyn yn wir ym mhob gwlad a chyfandir. Ffaith ddiddorol arall sy'n dangos y diffyg cydraddoldeb yn ein byd yw rhestr enillwyr y Wobr Nobel. Canran fechan iawn o ferched a gafodd eu hanrhydeddu o'i gymharu â dynion.

Er bod y sefyllfa dipyn gwell yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r byd, mae mwy o fenywod yn byw mewn tlodi na dynion. Yn ogystal, mae'r bwlch rhwng y rhywiau'n parhau o ran cydraddoldeb cyflog; mae llai o fenywod yn arwain sefydliadau ym myd busnes ac yn gyffredinol maent yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am ofal teuluol. Felly, os ydym o ddifrif am anrhydeddu a chymryd yr hyn a wnaeth Duw wrth greu menywod a dynion i adeiladu'r Deyrnas, mae angen inni glywed gan fenywod nid yn unig yn yr eglwys leol, ond o fewn ein Hundeb yn ogystal, er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n gyfiawn fel Cristnogion. Yn y pen draw mae sicrhau cynrychiolaeth gytbwys yn fater o gyfiawnder.

O ran sefyllfa benodol UBC rhan o'r anhawster yw mai gweinidogion yn bennaf yw ein cynrychiolwyr ar y gwahanol fyrddau a phwyllgorau gan mai hwy sy'n gwasanaethu fel Ysgrifenyddion ac Arolygwyr y Cymanfaoedd. Ond er bod hyn yn ddealladwy rhaid newid y drefn er mwyn sicrhau cydbwysedd yn y gynrychiolaeth.

Beth felly sydd angen ei wneud?

Yn y lle cyntaf rhaid cydnabod pa mor anfoddhaol yw'r sefyllfa bresennol a bod angen magu awydd am newid. Yn ail, awgrymir y dylid sicrhau bod 50% o'r cynrychiolwyr ar bob pwyllgor a bwrdd yn fenywod. Go brin y bydd modd cyflawni hyn dros nos, a'r bwriad felly yw gweithio tuag at y nod o fewn tair blynedd. Gall hyn olygu newidiadau pellgyrhaeddol. Er enghraifft, efallai bydd angen ailystyried amseroedd ein cyfarfodydd gan

Llun: Unsplash/Miguel Bruna

osgoi oriau gwaith a gwyliau ysgol. Mae'n siŵr hefyd y bydd yn rhaid wrth ymdrech i fynd ati i ddod o hyd i fenywod sy'n barod i wasanaethu. Ond beth bynnag fydd y rhwystrau a'r anawsterau, ni all yr un ohonynt gyfiawnhau peidio â cheisio sicrhau cyfiawnder o fewn ein rhengoedd.

Judith Morris

HYSBYSEB SWYDD

Y mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn chwilio am

Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol

Mae'r Undeb yn awyddus i benodi unigolyn(lion) i weithio mewn dau faes allweddol: cenhadaeth a chyfathrebu digidol.
Mae'n bosib ystyried yr hyblygrwydd o rannu swydd.

Bydd yr ymgeisydd(wyr) llwyddiannus yn gweithio gyda'r Ysgrifennydd Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cenhadaeth i:
a) gefnogi, datblygu a gweithredu rhaglen strategol o genhadaeth ymysg Eglwysi a Chymanfaoedd a
b) bod yn gyfrifol am gyfathrebu effeithiol, a chynorthwyo'r Undeb ac Eglwysi i ymgysylltu â chenhadaeth Duw mewn oes dechnolegol.

Dylai ymgeiswyr feddu ar sgiliau cyfathrebu, cyfryngau digidol a chreadigol cryf, yn ogystal ag angerdd am ymgysylltu cenhadol.
Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn Gristion sy'n ymarfer y ffydd ac yn barod i gefnogi amcanion elusennol ac egwyddorion Bedyddiedig Undeb Bedyddwyr Cymru. Oherwydd natur y swydd, mae hyn yn Ofyniad Galwedigaethol Penodol. Mae'r swydd yn cynnig patrymau gwaith hyblyg gyda chyfleon i weithio o gartref a bydd hefyd disgwyliad i weithio ar draws Cymru.

• Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol. Mae Undeb Bedyddwyr Cymru'n gweithredu cyfle cyfartal i bawb ac yn annog ceisiadau o bob sector o'r gymuned.

Cyflog: £29,200 – £31,031
Dyddiad cau: 17eg Ebrill 2023
Dyddiad cyfweld: 26ain Ebrill 2023
Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r:
Parch Simeon Baker - Cyfarwyddwr Cenhadaeth
Ffôn: 0345 222 1514 neu ebost: simeon@ubc.cymru

Y ‘Pethau Bychain’ a’r Cwmwl Mawr: neges Dewi ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain

Beth yw’r rheswm fod Dydd Gŵyl Dewi’n para mor bwysig yn ein golwg fel Cymry? Mae’n anodd deall pa apêl sydd gan eiriau olaf ein nawddsant, ‘Cadwch eich ffydd a’ch cred’, i genedl sy’n prysur droi ei chefn ar y ffydd Gristnogol yn gyfan gwbl, a dim ond 43% o’i phoblogaeth yn ei harddel mewn unrhyw ffordd. Tybed a yw’r ateb i’w boblogrwydd parhaol i’w gael yn ail gymal ei eiriau olaf: ‘Gwnewch y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf fi’? Credaf mai dyna’r allwedd i’r anwyldeb y mae’n ei hawlio yng nghalon ein cenedl, a’r ffaith fod ei neges yr un mor berthnasol yn ein hoes ni, ac i fyd yr unfed ganrif ar hugain, â’r hyn ydoedd bymtheg canrif yn ôl. Mewn gair, ei bwyslais ar *symlrwydd bywyd* sy’n cydio yn nychymyg y genhedlaeth bresennol; roedd hynny’n nodweddu holl gymeriadau Oes y Saint yng Nghymru yn y chweched ganrif: Illtud, Seiriol, Cybi, Deiniol, Dyfrig, ac eraill. Fel Dewi ei hun, mynachod tlawd oeddent, yn byw’n syml ac yn crwydro’r wlad i bregethu.

Aeth ein bywydau ni’n gymhleth iawn ar lawer ystyr, a thra mae bywyd Dewi, ynghyd â’i neges olaf, yn ein cymell i fyw’n syml drwy barchu creadigaeth Duw, rydyn ni’n cynnal ein ffordd o fyw drwy ei rheibio a’i chamddefnyddio. Nid ydym bob amser yn ymwybodol o hynny, ac er ein holl ymdrechion heddiw i fyw’n fwy ‘gwyrdd’ a chynaliadwy, mae’r niwed a wnawn i’r ddaear, ac i’n cyd-ddyn, yn parhau i fod yn sylweddol. Cymerwn ddwy enghraifft o hynny, o bethau sy’n rhan anhepgor o’n bywydau ni i gyd erbyn hyn.

Flynyddoedd yn ôl, petaem am ddod o hyd i ryw ffaith arbennig, neu ddyfyniad nad oeddem yn hollol sicr ohono, byddem yn estyn cyfeirlyfr o’r silff, neu’n treulio awr hyfryd yn pori yn y llyfrgell. Heddiw, mae’n haws o lawer: dim ond teipio gair neu ymadrodd allweddol i mewn i Google ar ein ffôn clyfar, iPad neu gyfrifiadur, ac fe ddaw’r ateb mewn eiliad. Mor rhwydd, ac mor gyflym! Ond mae pob ymchwiliad a wnawn; pob llun yr ydym yn ei gadw; pob ebost, neges destun neu WhatsApp a anfonwn; pob munud a dreuliwn ar gyfryngau cymdeithasol, a phopeth yr ydym yn ei brynu ar lein, yn cael eu cadw a’u cofio. Ymhle mae’r holl ddata yma’n cael ei storio? ‘Ar y Cwmwl’, meddwn ni! A beth yw’r Cwmwl? Mewn gwirionedd, mae’r enw’n beryglus o gamarweiniol, yn awgrymu rhyw fyd rhithiol yn yr awyr nad yw’n bodoli mewn unrhyw ffordd goncrid. Yn anffodus, mae hynny ymhell o fod yn wir. Ar draws y byd mae yna rwydwaith o filoedd o ganolfannau data enfawr, a phob un yn cynnwys cannoedd o gyfrifiaduron sy’n prosesu a storio’r holl wybodaeth a delweddau hyn.* Mae’r peiriannau hynny’n farus iawn yn eu defnydd o drydan a dŵr. Wyddoch chi, bob tro y byddwn yn treulio pum munud yn chwilio ar Google, rydym yn defnyddio’r un faint o drydan â’r hyn a wnawn wrth ferwi llond tecell o ddŵr? Nid ni sy’n talu amdano’n uniongyrchol, wrth gwrs, ond mewn dyddiau pan yw prisiau ynni’n ein gorfodi i fod yn ddarbodus wrth ei ddefnyddio, a’r gost i’r blaned o’i gynhyrchu yn ein cymell i chwilio’n cydwybod, fe ddylai’r ffaith syml fod pob ymchwiliad ar y we yn gyfystyr â berwi’r tecell ein sobri. Wedyn, wrth inni luosi hynny yn ôl nifer y bobl sy’n defnyddio’r we dros y blaned i gyd, fe ddaw’r cwestiwn moesol yn amlwg: oni ellid defnyddio’r holl drydan a dŵr prin yna er lles cymunedau anghenus yn y byd? Oes, mae i bopeth ei bris, ac mae ôl troed ein bywyd slic yn drwm iawn.

A throi wedyn at agwedd arall ar fywyd cyfoes. Peth canmoladwy, dybiwn i, yw gweld cymaint o bobl yn prynu ceir newydd trydan neu hybrid, ac mae’n braf gweld bysiau newydd o amgylch Caerdydd â’r datganiad yma arnynt: ‘Dim allyriadau’. Ond mae’r ceir a’r bysiau hyn yn dibynnu ar fatris y mae modd eu hailwefru, ac er mwyn cynhyrchu’r batris hynny mae’n rhaid cael cyflenwad digonol o lithiwm. Caiff y rhan fwyaf o lithiwm ei gynhyrchu yn Awstralia a De

Llun: Tom Wheatley ar Unsplash

America, Chile yn bennaf, ac mae llawer o gyhoeddusrwydd wedi ei roi yn ddiweddar i gymunedau brodorol Chile, sy’n colli eu tir wrth i fwyngloddiau gael eu suddo i gloddio am lithiwm. At hynny, mae’r ffynonellau dŵr yn yr ardaloedd hynny’n cael eu llygru, gan achosi salwch ac achosion o wenwyno. Maes o law, caiff y lithiwm ei allforio i China i gael ei brosesu, ac yno hefyd y cynhyrchir y rhan fwyaf o’r batris a ddefnyddiwn ni. Mae’n wir y gallen ni gloddio am lithiwm a chynhyrchu’r batris ein hunain, ond tan hynny mae eu taith yn gostus i’r blaned a’i phobl.

Mae yna gymaint o bethau y gallwn *ni* eu gwneud yn wyneb y problemau hyn: bod yn gyfrifol wrth ddefnyddio’n teclynnau digidol, er enghraifft, a dileu pethau nad oes angen inni eu storio am byth; a bod yn ystyriol wrth deithio. Dyna pam yr arhosodd geiriau olaf Dewi Sant gyda mi eleni: ‘Gwnewch y pethau bychain’, a pham y dylai ei fywyd syml ein herio o’r newydd. Mae yna arwyddion bod y dyhead am fywyd symlach yn cydio yn nychymyg llawer o bobl heddiw. Er enghraifft, cynyddodd y diddordeb yn hanes saint a mynachod y canrifoedd cynnar a’u ffordd o fyw, a thyfodd yr arfer o bererindota i fannau cysegredig a chadeirlannau hynafol.

Un o gyfansoddwyr blaenllaw America yn yr ugeinfed ganrif oedd Aaron Copland, ac yn aml mae ei weithiau’n adlewyrchu tirwedd eang, agored ei wlad. Ymysg y darnau hynny o’i waith rwy’n hoff iawn ohonynt y mae ‘Appalachian Spring’ (cyfeiria ‘Appalachian’ at gadwyn o fynyddoedd yng ngogledd-ddwyrain America, a’r ‘Spring’ at ffynnon yn y mynydd-dir hwnnw – nid at y gwanwyn). Ynddo, gwna Copland ddefnydd o hen alawon Americanaidd, ac yn eu mysg un o hen donau’r Shakers (nid y Crynwyr yr ydym ni’n gyfarwydd â nhw), sef ‘Simple Gifts’. Byddwn ni’n arfer cysylltu’r dôn â’r emyn ‘Arglwydd y ddawns’, ond y geiriau gwreiddiol oedd ‘Simple Gifts’:

> ’Tis a gift to be simple, ’tis a gift to be free,
> ’tis a gift to come down where we ought to be,
> and when we find ourselves in the place just right,
> ’twill be in the valley of love and delight.

Ymddiheuro a wna Tegwyn Pughe Jones yn un o’i gerddi i genedlaethau’r dyfodol am y difrod yr ydym ni wedi ei greu wrth reibio’r ddaear am ei hadnoddau:

> Nid byd gwell ond bywyd gwaeth
> yw’n hadlodd i’ch cenhedlaeth.

(*Daw’r manylion hyn o ‘Is the Cloud Damaging the Planet?’, a ddarlledwyd ar raglen *Panorama*, BBC1, ar 6 Chwefror 2023)

Glyn Tudwal Jones
Caerdydd

(Cyhoeddwyd gyntaf yn *Y Gadwyn,* cylchgrawn Eglwys y Crwys, Caerdydd)

Twf y Deyrnas yn Nhwrci

Mae Twrci yn tyfu yn ei seciwlariaeth. Mae Islam yn bresennol ym mhobman ond mae'r genhedlaeth iau yn ei hanwybyddu'n gynyddol. Fel gorllewin Ewrop mewn cyfnod ôl-Gristnogol, mae'n ymddangos bod Twrci'n datblygu i fod yn wlad ôl-Islamaidd. Mae'r mosgiau'n dal yno gyda'u galwadau i weddi, ond mae llai o bobl yn ymgynnull i weddïo.

Mae hyn oll yn cael effaith sylweddol ar yr eglwys Gristnogol. Bellach gall eglwysi Bedyddiedig gofrestru'n swyddogol, rhentu neu brynu eiddo ac ymwneud ag addoliad cyhoeddus. Er hynny, mae angen doethineb mawr o hyd pan ddaw hi at efengylu. Peth heriol yw dod yn Gristion yn ddiwylliannol a gall arwain at nifer o broblemau teuluol. Ond mae mwy o bobl yn dod i ffydd yn Iesu Grist, ac yn cael eu bedyddio'n dystiolaeth gyhoeddus o'u ffydd newydd.

Yn gweithio yn y cyd-destun hwn mae grŵp bach sy'n arbrofi gydag amrywiaeth o ddulliau o genhadu a gweinidogaeth o dan faner Cynghrair Bedyddwyr Twrci. Yn Izmir, rhoddwyd adeilad Eglwys Anglicanaidd i'r Bedyddwyr dros 20 mlynedd yn ôl i'w ddefnyddio fel man addoli. Mae addoli'n digwydd ar ddydd Sul, gydag astudiaeth Feiblaidd ganol wythnos a mynediad at astudiaethau diwinyddol unwaith yr wythnos. Yn ogystal â hyn, mae llawer o bobl leol yn dod i edrych ar y lleoliad unigryw hwn yn y ddinas ac yn derbyn teithiau tywys gan aelodau'r eglwys sy'n egluro iddyn nhw beth yw natur eu ffydd.

Mae teulu wedi mynd i ddinas Bergama i blannu'r eglwys gyntaf yno ers canrif. Ond does neb yn y ddinas yn gwybod beth yw

eglwys. Ai peth Americanaidd fel y gwelan nhw ar y teledu ydyw? Sut beth yw eglwys Dwrcaidd? Beth fydden nhw'n ei wneud? Hyd yn hyn, mae'r ceisiadau am adeilad i addoli wedi eu gwrthod. O'r herwydd mae'r eglwys wedi penderfynu cyfarfod y tu allan yn y parc. Ac yn Istanbul mae fflat wedi ei droi'n eglwys, er nad oes arwyddion y tu allan yn hysbysebu'r ffaith honno. Ar hyn o bryd, mae dros 600 o bobl yn gofyn i'r eglwys honno am gymorth i archwilio'r ffydd Gristnogol.

Alan Donaldson
Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop

Rhodd Gostus Crist o Gymod

Cyfres o fyfyrdodau ar gyfer y Grawys gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Wythnos 5

'Cynnig gweledigaeth gyda Christ yn ganolog ar gyfer cymodi mewn cymdeithas amlddiwylliannol'

Ysgrythur: Ioan 14: 5–7

Myfyrdod

Yr wythnos diwethaf fe wnaethon ni fyfyrio ar ddysgu o brofiad Cristnogion Sri Lanka yn eu gwaith heddwch a chymodi. Mae eu perthynas gyda ffydd eraill yn ffurfio rhan hanfodol o'u gwaith yn adeiladu heddwch. Drwy gydol degawdau o wrthdaro treisgar, mae pobl Sri Lanka wedi bod yn dystion i ganlyniadau dinistriol iaith, agweddau ac ymddygiad sydd yn ceisio dad-ddyneiddio a hyd yn oed difrïo pobl wrth i ni ddiffinio beth yw bod tu allan i'n cymuned. Wrth iddyn nhw weithio i ailadeiladu'r hyn a gafodd ei ddinistrio gan drais ac anghyfiawnder, a goresgyn sawl argyfwng gwleidyddol a chymdeithasol, maen nhw wedi gweld gwerth arweinyddion cymunedau ffydd yn dod ynghyd er mwyn amddiffyn a hyrwyddo'r hyn sydd er lles pawb.

Bu deialog rhyng-ffydd yn faes o ddiddordeb cynyddol i'r mudiad eciwmenaidd mewn degawdau diweddar, ar yr ynysoedd hyn ac yn rhyngwladol. Mae gwaith CTBI yn y maes yma yn seiliedig ar bedair egwyddor a ddatblygwyd gan Gyngor Eglwysi Prydain, a oedd yn ei dro, yn addasu'r hyn a ddysgwyd o brofiad Cyngor Eglwysi'r Byd:

- Bydd deialog yn dechrau pan fydd pobl yn cwrdd â'i gilydd.
- Mae deialog yn dibynnu ar gyd-ddealltwriaeth a chyd-ymddiriedaeth.
- Mae deialog yn ei gwneud hi'n bosibl i rannu mewn gwasanaeth i'r gymuned.
- Daw deialog yn gyfrwng tystiolaeth ddilys.

Ledled Prydain ac Iwerddon mae ein haelod eglwysi wedi cymryd rhan, yn unigol ac ar y cyd, mewn amrywiol gynlluniau sy'n cynnig deialog a chydweithio gyda chynrychiolwyr o grefyddau eraill. Yn ystod pandemig COVID-19, cyfrannodd y ddeialog rhwng cymunedau ffydd a llywodraethau yn gadarnhaol tuag at adeiladu perthynas

a chyd-ddealltwriaeth. Gwelsom hefyd arwyddocâd cymunedau ffydd yn dod ynghyd ar adegau o argyfwng a thrawma cymunedol, er enghraifft, yr ymateb ffydd a gafwyd i drychineb Tŵr Grenfell yn 2017, fel y gwelir yn ymchwil Melin Drafod Theos.

Fodd bynnag mae tensiynau, heriau a bylchau sylweddol yn parhau i fodoli. Gall pobl sy'n dod o grefyddau eraill ar wahân i Gristnogaeth barhau i deimlo'n anghofiedig neu wedi eu gwthio i gyrion cymdeithasau a luniwyd i raddfa helaeth gan y ffydd Gristnogol. Hyd yn oed mewn cyd-destun lle gwelir seciwlareiddio cynyddol, gellir llunio ymgysylltiad arweinwyr gwleidyddol a gwneuthurwyr polisi â hunaniaeth grefyddol mewn termau Cristnogol yn bennaf. Ceir galwadau am ostyngeiddrwydd, parch a haelioni pellach gan eglwysi wrth iddyn nhw gydnabod cymunedau ffydd eraill. Gall Cristnogion ei chael yn anodd dirnad beth mae'n ei olygu i fyw yn ffyddlon fel disgyblion Crist, gan dderbyn mai yng Nghrist mae'r ffordd tuag at iachawdwriaeth, fel yr amlinellir yn narlleniad heddiw o'r Ysgrythur, yn ein perthynas gyda thraddodiadau ffydd eraill. Yn yr Efengylau hefyd gwelwn Grist yn dangos gostyngeiddrwydd, parch a haelioni wrth gyfarfod â phobl o ffydd a hunaniaeth wahanol. Yn wir, yr hyn sy'n ei amlygu ei hun gryfaf yw bwriad Crist i groesi ffiniau cymdeithasol er mwyn rhoi'r rhai a gafodd eu gwthio o'r neilltu gan eu cymunedau eu hunain yng nghanol y stori.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r cynrychiolwyr rhyng-ffydd a ddygwyd ynghyd gan CTBI wedi myfyrio ar yr hyn mae'n ei olygu i gynnig Crist mewn cymdeithas amlddiwylliannol, gan ganolbwyntio'n arbennig ar sut y gallem weddïo gyda phobl o ffydd wahanol, a'r hyn mae'n ei olygu i weithio dros dwf eglwysig mewn cymunedau lle mae grwpiau ffydd eraill yn bresennol. Dydyn ni ddim yn ceisio rhoi atebion terfynol na hawdd, ond yn hytrach ceisiwn fyfyrio'n onest ynglŷn â chymhlethdod y materion hyn, ond gan gadw o'n blaenau'r gobaith y gallwn estyn allan i bobl eraill o fan lle mae Crist yn ganolog, mewn modd sydd yn arwain at wasanaeth i'r gymuned a thystiolaeth ffydd ddilys. Gweddïwn am ddoethineb i ofyn cwestiynau da ac i ymgysylltu gyda dewrder a hyder yn ein ffydd, fel na fydd cyfleoedd i dystio yn mynd ar goll oherwydd ofn.

Cwestiynau

- Beth mae'n ei olygu i fyw ein ffydd Gristnogol mewn byd amrywiol, yn grefyddol a diwylliannol?
- Pa rwystrau i ddeialog onest ac ystyrlon fyddwch chi'n dod ar eu traws gyda phobl o ffydd wahanol? Beth allai helpu i geisio'u datrys?
- Ydy eich eglwys, yn eich profiad chithau, yn hyrwyddo cysylltiadau rhyng-ffydd? Pa newidiadau, os oes angen, yr hoffech chi eu gweld yn yr ymagwedd tuag at ddeialog ryng-ffydd?

Camau Gweithredu

- Yn eich eglwys leol neu mewn cyd-destun eciwmenaidd, allech chi greu cyfle newydd ar gyfer cyfarfod, deialog a lletygarwch gyda chynrychiolydd o gymuned ffydd arall, neu sawl cymuned ffydd arall?
- Ystyriwch gynnwys dogfen Cyngor Eglwysi'r Byd ar y cyd â'r Cyngor Archoffeiriadol dros Ddeialog Ryng-grefyddol *Gwasanaethu Byd Clwyfedig mewn Cydsafiad Rhyng-grefyddol: Galwad Cristnogol i Weithredu yn ystod Covid-19 a thu hwnt*. Beth sy'n taro tant gyda chi? Sut allech chi roi'r wybodaeth hon ar waith mewn meysydd eraill?
- Allech chi wahodd cynrychiolydd o ffydd arall i sgwrsio am ei brofiad o weddi ac addoli er mwyn helpu i ddatblygu parch a dealltwriaeth, y naill i'r llall?

Gweddi

Dduw cariadus,
Mae rhaniadau a gelyniaeth rhwng pobl o ffydd
yn gwanhau byd clwyfedig
ac yn rhwystro'r llwybr i heddwch.
Gweddïwn dros bawb sy'n gweithio
i gryfhau rhwymau cymdeithas
rhwng cymunedau ffydd gwahanol.
Bendithia'r gwaith yma o gyfarfod, deialog a chyfeillgarwch
fel y bydd yn dwyn ffrwyth mewn
cymunedau cyfiawn a thrugarog.
Helpa bob un ohonom i ddod at bobl o ffydd wahanol
heb ofn na rhagfarn
gyda chalonnau sy'n agored i rannu Crist
a gwella perthnasau toredig
drwy wrando'n rasol.
Amen.

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 26 Mawrth, am 7.30yh
Mae 64 o Gymry adnabyddus wedi dewis eu hoff emyn ar gyfer y gyfrol *Hoff Emynau'r Cymry*, a olygwyd gan y gweinidog a'r cerddor Robert Nicholls. Cawn gyfarfod rhai o'r unigolion hyn a chlywed hanes eu hoff emynau.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 26 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp
Trystan Lewis yn cyflwyno emynau o Gymanfa Westminster 2022

Sul, 26 Mawrth, am 12:00yp
Oedfa dan arweiniad Carys Mai Jones, Caerdydd

O Gefn Gwlad

Neges yr acronym

Rydym yn byw yn oes yr acronym, sef gair wedi ei ffurfio o lythrennau cynta' geiriau eraill. Ac mae gennym hawl i'r gair yn y Gymraeg gan mai Groeg yw ei darddiad. Fel arfer, daw'r acronym ar ddiwedd y daith, hynny ydi, fe geir cyfres o eiriau neu deitl i ddechrau, ac acronym wedyn yn cael ei ffurfio o'r geiriau hyn. Felly daeth Cyfoeth Naturiol Cymru yn CNC, Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yn UCAC ac Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn EBC.

Enghreifftiau o acronymau mudiadau Cymru

Ond fe ellir mynd o'i chwmpas yn groes i hynny. Cael yr acronym i ddechrau a ffurfio geiriau, neu deitlau, i'r acronym hwnnw, yn enwedig gyda geiriau byrion. Ac i'n pwrpas ni yma, gair bychan yw'r PASG. Dim ond pedair llythyren. Tybed pa eiriau fyddech chi'n eu dewis i ddechrau efo'r pedair llythyren yna i ddisgrifio'r ŵyl arbennig hon? Mi fyddai yna amrywiaeth mawr, dwi'n siŵr.

A chan mod i'n annog pawb arall i fynd ati, dyma geisio fy hun. O feddwl am stori'r Pasg mae rhai yn dod i'r meddwl yn syth. Dyna i chi eiriau'r llythyren **p** i ddechrau: **palmwydd**, **poblogrwydd** a **pobol**, y geiriau amlwg wrth gofio'r orymdaith i Jerwsalem. **Anonestrwydd** ac **anhrefn** ddaw i fy meddwl wrth gofio'r olygfa yn y Deml, y cyfnewidwyr arian yn ennill arian trwy dwyll, a'r anhrefn pan ddymchwelodd Crist eu byrddau. Yna gyda **s** – **siars** Crist i'w ddisgyblion i gadw gwyliadwriaeth yn yr ardd, ei **siom** am iddyn nhw fethu, a **sancteiddrwydd** yr holl olygfa. **Golgotha** yw'r gair sy'n neidio atoch efo'r llythyren **g**, a **gwaed** a **gwaradwydd**, ond yn fwy cadarnhaol efallai – **gobaith a gorffennwyd.**

Mynd yn ôl yw hyn i gyd wrth gwrs, ac wrth wneud hynny oni ddylem hefyd fod yn ymwybodol o'r presennol, a neges y Pasg i ni heddiw, a'r sialens i ni sy'n dwyn yr enw Cristnogion? Tybed a ellir crynhoi mewn pedwar gair ein dyletswyddau ymarferol fel aelodau eglwysi tuag at ein byd a'i boblogaeth, a gwneud hynny gyda phedair llythyren y Pasg? Dyma roi cynnig arni beth bynnag:

P – Parchu
A – Asio
S – Symbylu
G – Gobeithio

Y mae llawer o'r drwg sydd yn ein byd yn bod oherwydd diffyg **parch** pobol at ei gilydd, ac yn enwedig at y rhai mwya' anffodus eu cyflwr. Fe ddywedir bod pawb yn gyfartal gerbron Duw, ond dydi bod pawb yn gyfartal ddim yn wir yn ein byd. Ydi o'n wir yn ein bywyd crefyddol? Mi wn mod i'n mynd ymhell yn ôl, ond doedd o ddim yn wir yn y capel y ces i fy nwyn i fyny ynddo. Yn ystod fy mhlentyndod roedd yno bump o flaenoriaid – pedwar ffarmwr a phrifathro'r ysgol gynradd. Rhai o aelodau mwya' ffyddlon y capel oedd chwarelwyr, ond ddewiswyd yr un o'r rheini yn flaenor! Mae pethe wedi newid erbyn heddiw, medden ni. Ydyn nhw?

Rydym yn byw mewn byd rhanedig: y du a'r gwyn, y tlawd a'r cyfoethog, y rhai breintiedig a'r rhai difreintiau, y doeth a'r annoeth, y rhai deallus a'r rhai anneallus. Ble bynnag y trowch, fe welwch fyd a chymdeithas ranedig. Ni, aelodau eglwysig, ddylai fod y cyfrwng sy'n **asio**, yn dileu'r gwahaniaethau, yn dwyn pobol at ei gilydd. Y ni, Bresbyteriaid, Wesleaid, Bedyddwyr ac Annibynwyr, ac enwi dim ond pedwar enwad. Ie, pedwar enwad! Oes angen dweud mwy?

Aeth llawer ohonom, yn wyneb sefyllfa fregus ein cymunedau crefyddol, yn ddigic ac yn ddiymadferth. Fe ddylem fod yn **symbylu** eraill i gredu, i fyw bywyd yn llawn, i feithrin agweddau iach tuag at ein byd a thuag at bawb sydd ynddo. Ond os ydym yn ddi-ffrwt ein hunain, allwn ni byth symbylu neb arall i wneud dim ond cysgu.

Beth yw sail hyn oll yn y diwedd? Ein cred, debyg iawn. Y **gobaith** sydd ynom. A sail ein cred yw ffydd. Na, af i ddim i geisio trafod ffydd, dim ond dyfynnu'r hyn welais i wedi ei nodi mewn llyfr emynau mewn capel y bûm yn ymweld ag o flynyddoedd yn ôl. Roedd perchen y llyfr (person adnabyddus yng Nghymru gyda llaw) wedi nodi'r hyn glywodd o gan bregethwr unwaith, a dyma fo: 'Faith is betting your life there is a God.' Mi gadawa i hi yn y fan yna!

Elfyn Pritchard

Cais am erthyglau i gylchgrawn Chwiorydd y Bedyddwyr

Fe ddaeth yn amser paratoi rhifyn Mai o'r *Cwlwm*, a safio i'r golygydd (fi!) gael panics fe fyddwn yn hoffi gofyn – yn garedig ac yn gynnar i chi – am unrhyw stwff yr hoffech weld ei gyhoeddi yn eich cylchgrawn bach. Felly, cerddi, erthyglau, storïau, hanes digwyddiadau, profiadau personol, ryseitiau, beth bynnag hoffech ei weld mewn print, a fyddech cystal â'i anfon ataf? Byddai llun neu ddau yn dra derbyniol hefyd. Yr eiddoch mewn ffydd, Einir.

Y cyfeiriad arferol felly:
einir.jones@yahoo.co.uk NEU
jtalfryn@yahoo.co.uk
neu – i bobl stamp ac amlen:
Einir Jones
Carn Ingli,
97 Ffordd y Coleg,
Rhydaman,
Sir Gâr,
SA18 2BT.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Yr atgyfodiad a'r bywyd

Gweddi

Daethost atom, drugarog Dad, yn dy Fab Iesu. Tyrd atom yn awr, dyna yw ein deisyfiad, drwy dy Ysbryd, fel y cawn ninnau weld, deall a dirnad rhyfeddod gogoniant Iesu Grist. Amen.

Emyn 336 – 'Iesu, ti yw ffynnon bywyd'

Cyflwyniad

Ar hyd cenedlaethau cred disgrifiodd rhai Cristnogion y profiad neu'r canlyniad o gwrdd ag Iesu fel 'atgyfodiad'. Torrodd grym bywyd, a thrugaredd a llais Iesu fel ton rasol drostynt, er na cheisient ef.

Gwelsom eisoes ddarluniau gwahanol o'r bywyd anorchfygol hwnnw. Clywodd Nicodemus am yr angen am ddechreuadau newydd drwy e*nedigaeth* newydd. Cyfarfu'r wraig wrth y ffynnon yn Sychar ag Iesu, a chlywodd am yr Ysbryd a fyddai'n *disychedu* ei henaid. *Gwelodd* y gŵr a anwyd yn ddall Fab y dyn a'i addoli.

Darlleniad – Ioan 11:1–51

Ym mhob cyfarfyddiad y buom yn darllen amdanynt tystiwyd i'r bywyd newydd a ddaeth i ran y rhai a gredodd yn Iesu. Mewn dull cwbl ddramatig, tystia'r 'arwydd' rhyfeddol, presennol, i aruthredd effeithiau ymyrraeth Iesu ynom.

Credu a gwrthod credu

Mae'n wir nad oedd yn rhaid credu mai Mab Duw yw Iesu ar sail yr arwydd hwn. Onid oedd proffwydi'r Ysgrythurau wedi cyflawni gwyrthiau nid annhebyg? Ond, yn wahanol i Eliseus, er enghraifft, hawliodd Iesu fod grym yr atgyfodiad a gallu bywyd tragwyddol yn bresennol, yn gorfforol, ynddo ef ei hun.

Ni chredodd pawb ynddo bryd hynny, a hyd heddiw mae Iesu ei hun yn rhannu barn, ei weithredoedd yn mynnu eglurhad, a'i eiriau'n mynnu ymateb gennym.

Lle y gwêl *ffydd* ragoriaeth a rhyfeddod yn y person dwyfol hwn a dorrodd i mewn i'n byd, gweld bygythiad i drefn a statws a hunangyfiawnder a wna'r *anghrediniwr.*

Deallodd yr arch-wrthwynebydd, yr archoffeiriad ei hun, mai pitw oedd ei allu i atal dylanwad Iesu, gan fod 'y byd' yn rhedeg ar ei ôl. Ond ni ddeallodd mor bellgyrhaeddol oedd ei osodiad eironig-broffwydol ei hun. Ni ddeallodd, er i'r Sanhedrin gynllwynio i'w ddifa, fod gwerth a rhinwedd yn hunanaberth Iesu i ddwyn y byd i gyd o dan ei frenhiniaeth!

Ffydd yn y ffau

Ar yr olwg gyntaf byddai'n rhwydd tybio bod Lasarus ('mae Duw yn gofalu') wedi llithro o afael Duw yng Nghrist. Oni allai Iesu, pan glywodd am salwch Lasarus, fod wedi defnyddio'i allu i gyhoeddi iachâd o bellter? Mor galed oedd yr oedi cyn iddo ddod at ei anwyliaid ym Methania. Gymaint oedd y dioddefaint a wynebodd Lasarus; mor ddolurus oedd calonnau Martha a Mair wrth iddynt ffarwelio â'u brawd.

Gogoniant

Wedi i Lasarus fod yn ei fedd am bedwar diwrnod cyrhaeddodd Iesu i Fethania. Cyn belled â bod gallu dynol yn y cwestiwn roedd yn rhy hwyr. (Ystyriai Iddewon nad oedd modd i unrhyw un gael ei ddadebru ar ôl pedwar diwrnod.) Er hyn, mynnodd Iesu y byddai'r hyn a gyflawnai drwy Lasarus 'yn ogoniant i Dduw' ac 'yn gyfrwng i Fab Duw gael ei ogoneddu drwyddo' (adn. 4).

Yno, wrth fedd Lasarus, gwelwyd nad syniadau haniaethol na grym mecanyddol, oeraidd yw 'gogoniant Duw', 'trugaredd' neu 'ras'. Na, daeth 'gras ein Harglwydd Iesu Grist a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân' yn agos at ddwy chwaer alarus yn awr eu cyfyngder. Daeth atynt gan wylo gyda hwy (adn. 35). Daeth atynt dan 'deimlad dwys' (adn. 38) wrth weld creulondeb angau ac anallu'r byd a'r galarwyr i liniaru dim ar rym angau a'i allu i ddifetha popeth da.

Yn ei ddyfodiad, fodd bynnag, daeth ffordd amgen o feddwl am farwolaeth yn rhan o ieithwedd y byd. 'Huno' yr oedd merch Jairus a 'huno' yn unig yr oedd Lasarus i Iesu. Nid oedd Lasarus, hyd yn oed yn ei angau, y tu hwnt i afael Iesu. Byddai ei lais yn deffro Lasarus (Ioan 5:24, 28). Nid angau a diwedd pob dim, ond cwsg cyn deffro sy'n disgwyl y rhai sydd yng Nghrist! (Actau 13:36; 1 Corinthiaid 7:39; 11:30; 15:6,18,20; 1 Thesaloniaid 4:13)

'Bywyd ynddynt sydd …'

Yno yng nghwmni dwy chwaer drallodus cyhoeddwyd y geiriau rhyfeddaf a fynegodd tafod dynol, ac y clywodd clustiau pobl, erioed. Cyhoeddodd Iesu mai, 'Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd.' Yr oedd *disgwyliad* a gobaith am yr hyn a ddigwyddai i bobl ffyddlon yr Arglwydd wedi camu o'r dyfodol annelwig, pell i ganol llwyfan amser. Yr oedd gobaith, bywyd a nerth anfarwoldeb yno, yn sefyll yn eu plith, mewn person dynol.

Cyhoeddodd *addewid*: 'Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth' (adn. 25–6). Y mae realiti dyffryn tywyll angau ar lwybr pob un byw. Ond i bob 'Lasarus', i'r rhai sy'n 'credu' yng ngair a gallu Iesu, nid gan farwolaeth y bydd y gair olaf. Perthyn hwnnw i Iesu – yr Alffa a'r Omega gogoneddus ei hun.

Yn sgil yr addewid daeth *gwahoddiad* i dderbyn, i berthyn, i brofi bywyd: 'A wyt ti'n credu hyn?' Tybed a wnest ti fy adnabod? A wnest ti ddeall? A wnest ymddiried ynof? Cyn bod gwyrth yr atgyfodiad, cyn i Lasarus godi o'r bedd? Cyn i ddim arall ddigwydd i ti, a wnest ti ddirnad mawredd yr hwn y sefaist yn ei bresenoldeb?

Chwyldro

Bydd pob crediniwr, ym mhob man ac ym mhob oes, yn adnabod symlder chwyldroadol geiriau Mair (adn. 27). Yno o'i blaen safai *Arglwydd* pob un dim: Arglwydd bywyd ac angau, Arglwydd trugarog, hollalluog. Dyma'r *Meseia*, y gwaredwr, eneiniog Duw. Dyma *Fab Duw*. Dyma gyflawniad hiraeth, disgwyliad a chyhoeddiad y proffwydi. Dacw ef yno, mewn cnawd.

Ar ei gliniau, mewn ystum o ymostyngiad, rhoddodd Mair fynegiant i ffydd y Cristion gwannaf, i hyder y Cristion mwyaf sigledig ei gred, ac i ryfeddod y Cristion mwyaf profiadol, dyfnaf ei ddealltwriaeth: 'Ydwyf, Arglwydd … yr wyf fi'n credu mai tydi yw'r Meseia, Mab Duw, yr Un sy'n dod i'r byd.'

Gweddi

Arglwydd, fel y daethost at dy ddisgyblion Martha a Mair i'w cysuro, tyrd atom a dangos i ni, sydd dan ein pwn, orchest dy drugaredd a dyfnder dy dosturi. Fel y torrodd dy air, dy lais a'th rym bywiol ar drueni Lasarus, caniatâ i ninnau glywed dy leferydd a chodi i'th ganlyn di. A thrwy weinidogaeth dy Ysbryd, caniatâ i ninnau sylweddoli dy fod wedi dod i'n byd i'th roi dy hun yn aberth, nid dros dy genedl dy hun yn unig, 'ond er mwyn casglu plant Duw oedd ar wasgar o bob cenedl, llwyth ac iaith, a'u gwneud yn un'. Amen.

Emyn – 'Myfi yw'r atgyfodiad mawr'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru